# Ysgol Fusnes Aberystwyth

Dirnadaeth a arweinir gan ymchwil.
Effaith ymarferol.
Twf rhanbarthol.



**Yn Ysgol Fusnes Aberystwyth, rydym yn cyfuno dealltwriaeth ymarferol o fyd busnes â gwaith ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol, ynghyd ag arbenigedd ym maes polisi i gefnogi sefydliadau ledled y Canolbarth a thu hwnt.**

1872 Ysgol Fusnes Aberystwyth Business School

Mae ein gwaith yn seiliedig ar ymchwil academaidd gadarn sydd nid yn unig yn llywio polisi ar lefel ranbarthol, genedlaethol a byd-eang, ond sydd hefyd wedi'i chynllunio i fod yn ddefnyddiol, yn hygyrch ac yn werthfawr i fusnesau a phartneriaid yn y diwydiant.

P'un a ydych yn fusnes bach neu ganolig, yn fusnes newydd, wrthi'n tyfu, yn fusnes sefydledig mawr neu hyd yn oed yn gorff diwydiant, gallwn gydweithio â chi i fynd i'r afael â heriau, datgloi cyfleoedd, a chefnogi twf cynaliadwy.

# Ein Meysydd Cydweithredu

## Gwasanaethau Ymgynghori a Chymhwyso

**Rydym yn cynnig cyngor sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac ymchwil, wedi'i deilwra i anghenion eich sefydliad. Mae ein harbenigedd yn cynnwys:**

- Cynllunio strategol a thwf busnes
- Marchnata a datblygu'r farchnad
- Rheolaeth ariannol a threthiant
- Arweinyddiaeth, llywodraethu a datblygu sefydliadol
- Cynaliadwyedd, materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, ac arferion busnes cyfrifol
- Cynllunio dilyniant a gwytnwch hirdymor

> Mae ein dull yn cyfuno trylwyredd academaidd â dealltwriaeth ymarferol, gan ddarparu atebion sy'n arloesol ac yn canolbwyntio ar ymarferwyr.

## Partneriaethau SMART a Chyfnewid Gwybodaeth

**Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â busnesau, cymdeithasau diwydiant a chyrff cyhoeddus i gyd-greu gwybodaeth ac atebion drwy:**

- Prosiectau ymchwil cydweithredol
- Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth
- Cydweithio ar arloesi
- Ymwneud â pholisi a darparu cyngor yn seiliedig ar dystiolaeth
- Mewnwelediadau sy'n canolbwyntio ar y sector trwy bartneriaethau SMART

> Mae'r partneriaethau hyn yn galluogi sefydliadau i fanteisio ar ymchwil flaengar a'i llunio ar yr un pryd drwy ei defnyddio yn y byd go iawn.



## Addysg Weithredol a Datblygiad Proffesiynol

**Rydym yn cynnig cyfleoedd dysgu hyblyg, wedi'u harwain gan ymchwil ac wedi'u cynllunio o amgylch anghenion sefydliadau a'u gweithlu:**

- Cyrsiau byr i weithredwyr a rhaglenni wedi'u teilwra i gwmnïau
- Datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth
- Cyrsiau MBA, DProf a rhaglenni uwchsgilio arbenigol eraill
- Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu
- Llwybrau gradd a dilyniant ar gyfer datblygu'r gweithlu

> Mae ein rhaglenni yn cyfuno rhagoriaeth academaidd â pherthnasedd ymarferol, gan roi sgiliau i unigolion a thimau sy'n trosi'n uniongyrchol i berfformiad busnes.

## Cyfleoedd i Fyfyrwyr wneud Gwaith Ymgynghorol a gweithio ar Brosiectau Byw

**Gall ein myfyrwyr weithio gyda sefydliadau ar heriau'r byd go iawn yn rhan o'u hastudiaethau, o dan oruchwyliaeth arbenigwyr academaidd, drwy:**

- Strategaeth fusnes a phrosiectau ymchwil i'r farchnad
- Aseiniadau arloesi a datblygu cynnyrch
- Dadansoddiad ariannol a gweithredol
- Asesiadau cynaliadwyedd ac effaith (gan gynnwys asesiadau ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu)

> Mae hyn yn darparu safbwyntiau ffres a mewnwelediadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fusnesau, wrth ddatblygu'r genhedlaeth nesaf o raddedigion medrus.

# Ein Harbenigedd

**Mae ein tîm academaidd yn cynnwys ymchwilwyr ac ymarferwyr o fri rhyngwladol, sydd â phrofiad yn y diwydiant ar lefel ryngwladol a rhanbarthol, y mae eu gwaith yn dylanwadu ar bolisi, yn llywio arferion y diwydiant, ac yn siapio canlyniadau i gymdeithas a'r farchnad.**

### Rydym yn cynnig:

- Arbenigedd disgyblaethol dwfn ar draws feysydd cyfrifeg, economeg, cyllid, marchnata, rheolaeth ac entrepreneuriaeth
- Cysylltiadau cryf â'r diwydiant, y llywodraeth a rhanddeiliaid yn y gymuned
- Profiad sy'n cwmpasu corfforaethau byd-eang, busnesau bach a chanolig a mentrau rhanbarthol

> Mae'r cyfuniad unigryw hwn yn ein galluogi i drosi ymchwil a phrofiad ymarferol yn effaith wirioneddol i fusnesau a sefydliadau.

# Cysylltwch â Ni

**Rydym yn cynnal dosbarthiadau meistr, sesiynau briffio'r diwydiant a digwyddiadau meithrin cyswllt â'r cyhoedd yn rheolaidd, gan rannu gwybodaeth ar ddatblygiadau allweddol – o bolisi economaidd i heriau a chyfleoedd sy'n benodol i'r sector.**

Ewch i'n gwefan i ddarganfod recordiadau, papurau a deunyddiau perthnasol eraill.

I gael gwybod sut y gallwn weithio gyda'n gilydd:

**Ewch i:** www.aber.ac.uk/yfa/busnes
**Cyswllt:** Dr Julie Jones – jum1@aber.ac.uk

